

Gwybodaeth i Gleifion

Ffisiotherapi i Blant o Enedigaeth i 18 oed

Gwasanaeth Ffisiotherapi

Beth yw Ffisiotherapyddion?

Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yw ffisiotherapyddion sy'n helpu pobl yn bennaf drwy weithgarwch corfforol fel ymarfer corff a symud. Mae rhai Ffisiotherapyddion yn arbenigo mewn gweithio gyda phlant a dysgu am y cyflyrau y gallant eu cael a'r ffordd orau o'u helpu. Fe'u gelwir yn **Ffisiotherapyddion Plant**.

Pa anhwylderau plentyndod allwn ni helpu gyda nhw?

- Problemau niwrolegol, fel Parlys yr Ymennydd
- Babanod ag oedi wrth ddatblygu
- Problemau orthopaedig
- Cyflyrau rheumatoleg (e.e. arthritis)
- Nychdod Cyhyrol
- Plant ag anawsterau cydsymud
- Cyflyrau sy'n effeithio ar anadlu

Ble rydyn ni'n gweld plant?

Ein nod yw gweld plant yn y lle mwyaf addas e.e.:

- Mewn Canolfan Blant
- Yn yr ysgol
- Yn y feithrinfa
- Yn y cylch chwarae
- Yn ei dy ef ei hun/yn ei thy hi ei hun
- Yn ystod arhosiad yn yr ysbyty

Beth mae Ffisiotherapyddion Plant yn ei wneud?

Asesu plant er mwyn cadarnhau diagnosis a phenderfynu a fyddai triniaeth ffisiotherapi yn ddefnyddiol.

Trin ystod eang o gyflyrau. Gall hyn fod yn unigol neu mewn grŵp. Efallai y byddwn weithiau'n gofyn i un o'n technegwyr ffisiotherapi gynnal rhaglen driniaeth.

Cynghori rhieni a gofalwyr sut y gallant helpu i wella'r ffordd y gall plentyn symud a gweithredu.

Beth fydd yn digwydd yn ystod yr apwyntiad cyntaf?

Yn yr apwyntiad cyntaf, bydd eich plentyn yn cael ei asesu i weld a fyddai triniaeth ffisiotherapi yn ddefnyddiol.

Rhaid i bob plentyn o dan 16 oed ddod i'w apwyntiad cyntaf gyda'r person sydd â chyfrifoldeb rhianta drostynt. Yn aml, ond nid bob amser, rhiant plentyn fydd y person hwn. Os nad ydych yn siŵr pwy sydd â chyfrifoldeb rhianta dros eich plentyn, cysylltwch â'ch Canolfan Blant i gael taflen wybodaeth.

Beth ddylid ei wisgo ar gyfer yr apwyntiad?

Os yw'n briodol, awgrymwn eich bod yn dod â thrwsus byr a chrys-T i'ch plentyn newid iddynt cyn yr asesiad. Bydd hyn yn caniatáu i'r ffisiotherapydd weld breichiau a choesau eich plentyn yn glir.

Beth os na allaf gadw'r apwyntiad?

Os na allwch gadw'r apwyntiad a roddwyd i chi, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl a gallwn wneud apwyntiad newydd i chi.

Os na fyddwch yn dod i apwyntiad, heb roi gwybod i ni, efallai y bydd eich plentyn yn cael ei ryddhau o'n Gwasanaeth, yn unol â'n protocol.

Disgyblion

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ymrwymo i addysgu gwahanol fyfyrwyr gofal iechyd. Os dymunwn i fyfyrwr fod yn bresennol yn apwyntiad eich plentyn, byddwn yn trafod hyn gyda chi yn gyntaf. Os nad ydych yn dymuno i'r myfyrwr fod yno mae croeso i chi wrthod. Ni fydd hyn yn effeithio ar driniaeth eich plentyn mewn unrhyw ffordd.

Ble ydych chi'n cysylltu â ni?

Ar gyfer De Sir Fynwy, De Torfaen a Chasnewydd:

Canolfan Blant Serennu
Cwrt Camlas
High Cross
Tŷ-du
Casnewydd
NP10 9LY Rhif Ffôn: 01633 748064

Ar gyfer Gogledd Sir Fynwy, Gogledd Torfaen a Blaenau Gwent:

Y Ganolfan Blant
Ysbyty Nevill Hall
Brecon Road
Y Fenni
NP7 7EG Rhif Ffôn: 01873 732712 Rhif Ffacs: 01873 732728

Ar gyfer Bwrdeistref Caerffili:

Canolfan Blant Caerffili
Cwrt Llanfabon
Heol Las
Energlyn
Caerffili
CF83 2WP Rhif Ffôn: 02920 867447 Rhif Ffacs: 02920 852766

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English